SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU



# Cyflwyniad i Ddatganiad Cyfrifon y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Grŵp

# 2022/23

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES





# Cyflwyniad gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Mae 2022/23 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus iawn i Heddlu Gogledd Cymru a'm Swyddfa i. Roedd hi'n flwyddyn olaf Ymgyrch Uplift sef y cynllun i gynyddu niferoedd swyddogion heddlu 20,000 yn genedlaethol. Gwnaeth Heddlu Gogledd Cymru gyflawni'r targed cyffredinol o 206 o swyddogion ychwanegol erbyn diwedd mis Mawrth 2023. Er mwyn cynnal y sefydliad hwn, mae cynlluniau i recriwtio 138 o swyddogion newydd yn 2023/24. Syrthiodd trosedd cofnodedig 5.9% yn ystod y flwyddyn ariannol, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Llwyddodd fy swyddfa i sicrhau cyllid ychwanegol sylweddol yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys dros £1.1m er mwyn cynorthwyo prosiectau Cronfa Strydoedd Diogelach yng Nghaergybi, Sir y Fflint a Wrecsam; £240,000 gan y Swyddfa Gartref ar gyfer cyflwyno Rhaglen Troseddwyr Trais Domestig; a £288,000 gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo llochesi merched.

Lansiodd fy swyddfa wefan newydd, sy'n derbyn oddeutu 2,500 o ymwelwyr bob mis. Mae gennym bellach 600 o danysgrifwyr ar gyfer y cylchlythyr bob pythefnos gan SCHTh.

Cymeradwywyd cyllideb refeniw net o £182.268m yn unfrydol gan y Panel Heddlu a Throsedd ar 31 Ionawr 2022. Roedd tanwariant o £6.290m yn ystod y flwyddyn, sy'n gysylltiedig ag amseru recriwtio Ymgyrch Uplift, ond hefyd diolch i gyllidebau'n cael eu rheoli'n dda gan yr heddlu. Mae hyn yn orchest i ymfalchïo ynddi, yn enwedig o ystyried yr arbedion sylweddol sydd wedi gorfod eu canfod bob blwyddyn ers 2010. Mae'r tanwariant hwn wedi'i ychwanegu at fy nghronfeydd wrth gefn ac mae wedi'i ystyried wrth osod y dreth gyngor ar gyfer 2023/24. Gall y Prif Gwnstabl a minnau felly symud ymlaen yn hyderus, gan wybod fod y sefydliadau rydym yn eu harwain mor gadarn yn ariannol ag y gallent fod yn y cyfnod o ansicrwydd presennol.

**Andy Dunbobbin**
Comisiynydd Heddlu a Throsedd



# Cyflwyniad gan y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2022/23 (CIPFA/LASAAC) yn rhoi arweiniad i ni ar sut y dylem baratoi ein cyfrifon er mwyn cydymffurfio â Safonau Hysbysu Ariannol Rhyngwladol. Gwneir hyn hefyd yn unol â deddfwriaeth, sy'n gofyn i ni ddangos mantolen cronfeydd y trethdalwyr (cronfeydd wrth gefn a ellir eu defnyddio) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Tra bod rhaid i ni gydymffurfio gyda'r gofynion hyn wrth baratoi ein Datganiad Cyfrifon ar gyfer y diben o osod y dreth gyngor a monitro incwm a gwariant, rydym yn mesur ein cyflawniad ariannol yn y flwyddyn drwy gymharu ein cyllideb gydag ein halldro (incwm presennol a gwariant yn y flwyddyn) a'r effaith ar y gronfa wrth gefn ddefnyddiadwy.

## Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, trosglwyddodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd £8.352m i'r cronfeydd wrth gefn:

| | **Balans agoriadol** 1 Ebrill 2022 | **Symudiad yn y Gronfa wrth Gefn** | **Balans clo** 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** |
| Cronfa wrth Gefn Gyffredinol | 6.006 | 0.114 | 6.120 |
| Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd | 34.481 | 7.011 | 41.492 |
| **Cyfanswm Cronfeydd Refeniw wrth Gefn** | **40.487** | **7.125** | **47.612** |
| Cronfa Derbynebau Cyfalaf wrth Gefn | 2.350 | 1.227 | 3.577 |
| **Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy** | **42.837** | **8.352** | **51.189** |

Mae angen i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gadw cronfeydd wrth gefn. Nid oes hawl ganddo osod cyllideb a allai adael y cronfeydd wrth gefn a ellir eu defnyddio wedi eu gordynnu. Cyhoeddir rhestr lawn o'r cronfeydd wrth gefn hyn ac eglurhad am y symudiadau o fewn Adroddiad Naratif Datganiad Cyfrifon y CHTh a'r Grwp.

## Cyllideb Refeniw

Cyflawnwyd arbedion arfaethedig o £0.755m yn ystod y flwyddyn. Roedd hon yn orchest drawiadol wrth ystyried yr arbedion sydd wedi gorfod cael eu gwneud ers 2010. Trosglwyddwyd cyfanswm o £8.352m (net) i gronfeydd wrth gefn ddiwedd mis Mawrth 2023. Mae £6.290m yn berthnasol i danwariant refeniw. Mae'r tanwariant hwn wedi'n galluogi ni liniaru costau at y dyfodol, drwy gynyddu'r gronfa Ynni wrth gefn a'r gronfa ESN wrth gefn (y prosiect sy'n disodli'r system radio Airwave), gan leihau'r cynnydd angenrheidiol ar gyfer y symiau hyn yn y gyllideb refeniw ar gyfer 2023/24.

| Gwariant Refeniw | Cyllideb Ddiwygiedig 2022/2023 | Alldro (Presennol) 2022/2023 | Gorwario/ (Tan)wario Amrywiant |
|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m |
| Costau Cyflog Gweithwyr | 155.630 | 152.218 | (3.412) |
| Costau Gweithwyr Eraill | 5.986 | 5.899 | (0.087) |
| Costau Rhedeg Nad Ydynt Yn Rhai Staff | 39.974 | 40.522 | 0.548 |
| Cyllid Cyfalaf | 5.470 | 5.594 | 0.124 |
| Cronfa Diogelwch Cymunedol y CHTh a Phartneriaid | 8.731 | 8.672 | (0.059) |
| Incwm ac Ailgodi tâl | (10.979) | (13.367) | (2.388) |
| Grantiau Penodol | (23.380) | (24.396) | (1.016) |
| **Gwariant Gweithredu** | **181.432** | **175.142** | **(6.290)** |
| Trosglwyddiad net i Gronfeydd Refeniw Wrth Gefn wedi'u Clustnodi | 1.232 | 7.522 | 6.290 |
| Trosglwyddiad o Gronfa Gyfalaf wrth Gefn wedi'i Chlustnodi | (0.510) | (0.510) | - |
| Trosglwyddiad i gronfa gyffredinol | 0.114 | 0.114 | - |
| **Gwariant Net** | **182.268** | **182.268** | **-** |
| **Ariennir gan:** | | | |
| Grantiau Llywodraeth | 88.407 | 88.407 | - |
| Praesept (Treth Gyngor) | 93.861 | 93.861 | - |
| **Cyfanswm Cyllid** | **182.268** | **182.268** | **-** |

Mae amrywiant sylweddol yn cynnwys:

- **Costau gweithwyr – tanwariant** £3.412m
  Mae cyflog yn cyfrif am 72% o'r gyllideb gwariant. Cododd y tanwario yn bennaf oherwydd y neilltuwyd cost blwyddyn lawn swyddogion ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfan, ond yn ymarferol, digwyddodd recriwtio drwy gydol y flwyddyn.
- **Costau rhedeg i rai nad ydynt yn staff – gorwario** £0.548m
  Neidiodd costau ynni yn 2022/23 gan arwain at orwario o £0.797m yn y gyllideb hon. Mae camau wedi'u cymryd er mwyn prynu ynni cyn gaeaf 2023/24 er mwyn ystyried gostyngiadau presennol mewn prisiau ynni.

  Roedd costau ychwanegol hefyd ar ddodrefn ac offer er mwyn gweithredu rhaglen ystwythder y gweithlu'n llawn. Fodd bynnag, roedd arbedion yn y cyllidebau Technoleg Gwybodaeth a Thrafnidiaeth, gan ddod â'r gorwariant cyffredinol yn y maes i £0.548m.
- **Incwm – incwm ychwanegol** £2.388m
  Mae incwm buddsoddi wedi cynyddu yn unol â chyfraddau llog, ac mae incwm sylweddol wedi dod o gymorth cilyddol, yn bennaf yn gysylltiedig â digwyddiadau brenhinol a Gemau'r Gymanwlad. Mae incwm cymorth cilyddol yn cynyddu o'n swyddogion yn mynd ar secondiad tymor byr i heddluoedd eraill, yn aml at ddibenion digwyddiadau plismona.

Mae cost Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael ei gynnwys yn yr uchod. Y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn oedd £0.955m a'r alldro oedd £1.004m. Mae gorwariant cyffredinol o £0.043m yn berthnasol i'r gyllideb staffio a chostau TG ychwanegol wedi'i ariannu gan Gronfa Gyffredinol wrth Gefn SCHTh. Ariannwyd £0.006m pellach yn berthnasol i gostau cyfreithiol o Gronfa Gyfreithiol wrth Gefn SCHTh.

## Cyllideb Gyfalaf

Mae'r tabl gwariant refeniw yn cynnwys effaith gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn ar y cyfrif incwm a gwariant a'r cronfeydd wrth gefn. Mae'r rhaglen cyfalaf yn cynnwys gwariant ar asedau gydag oes ddefnyddiol o fwy nag un flwyddyn, fel tir, adeiladau, cerbydau a pheth offer TG. Pan fydd asedau yn cael eu gwerthu, rhaid i dderbynebau dros £10,000 gael eu trosglwyddo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf wrth Gefn. Gellir eu defnyddio yn unig er mwyn ariannu rhaglen gyfalaf neu ad-dalu dyled. (Mewn cyferbyniad, mae'r gronfa wrth gefn sydd wedi ei chlustnodi o'r enw'r Gronfa Gyfalaf wrth Gefn yn deillio o refeniw. Gall y Comisiynydd drosglwyddo symiau rhwng y gronfa gyffredinol ac unrhyw gronfa wrth gefn wedi ei chlustnodi fel y gwêl yn briodol. Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn yn cael eu hadolygu yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu dyrannu yn briodol er mwyn cyflawni'r Cynllun Heddlu a Throsedd.)

Roedd y rhaglen gyfalaf wreiddiol ar gyfer 2022/23 yn £11.176m. Wedi addasiadau ar gyfer llithriant ac ailbroffilio, roedd y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn yn £7.036m. Yr alldro ar gyfer y flwyddyn oedd £6.890m.

| Gwariant Cyfalaf | Cyllideb Ddiwygiedig | Gwariant | Amrywiant |
|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m |
| Gwaith Adeiladu | 2.747 | 2.348 | (0.399) |
| Cerbydau ac Offer Eraill | 1.706 | 1.609 | (0.097) |
| Technoleg Gwybodaeth ac Offer | 2.583 | 2.933 | 0.350 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **7.036** | **6.890** | **(0.146)** |
| **Cyllid:** | | | |
| Cyfraniad Refeniw | 2.276 | 3.502 | 1.226 |
| Cronfa wrth Gefn a Glustnodwyd | 1.482 | 0.510 | (0.972) |
| Derbynebau Cyfalaf | 0.426 | 0.417 | (0.009) |
| Benthyca ar gyfer Ystadau | 2.176 | 1.790 | (0.386) |
| Benthyca ar gyfer Rhaglen Amnewid | 0.676 | 0.671 | (0.005) |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf** | **7.036** | **6.890** | **(0.146)** |

Cwblhawyd y gwaith ar y Ganolfan a Gweithdy Comisiynu Cerbydau a dechreuodd weithio yn yr hydref. Cwblhawyd y gwaith gwella yn yr Ystafell Reoli a gosod Gorsaf Heddlu newydd Llanrwst ar safle a rennir ddechrau 2023/24.

Dechreuodd rhaglen uwchraddio Digidol a TG drawsbynciol sylweddol yn 2019/20 a pharhaodd i 2022/23. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno gliniaduron personol a chamerâu corff i swyddogion a oedd gynt yn rhannu offer. Mae rhaglenni hanfodol a aeth rhagddynt yn ystod 2022/23 yn cynnwys uwchraddio'r system reoli, y Rhaglen Alluogi Genedlaethol (er mwyn rhoi pob heddlu ar yr un fersiwn o feddalwedd safonol, sy'n eu galluogi nhw weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol), ap symudol, a rhaglen amnewid ar gyfer ffonau symudol. Bydd llawer o'r prosiectau hyn yn parhau yn 2023/24.

## Cysoni Cyllid sydd ar gael a GAAP

Mae'r cyflwyniad hwn yn dangos sut mae'r cyllid sydd ar gael i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi'i wario er mwyn darparu gwasanaethau, o'i gymharu â'r gyllideb. Ar y sail hon y rheolir gwariant ac incwm bob dydd. Adlewyrcha hyn y sefyllfa ariannu, sy'n angenrheidiol o dan ddeddfwriaeth.

Fodd bynnag, mae'r prif ddatganiadau cyfrifyddu yn Natganiad Cyfrifon y CHTh a'r Grŵp yn cael eu paratoi a'u cyflwyno yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir (GAAP). Maent yn dangos y gost gyfrifyddu mewn blwyddyn yn hytrach na'r swm sydd i'w ariannu o drethiant. Ceir addasiad wedyn rhwng y sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan reoliadau.